

## ASTUDIAETH ACHOS

KYLE LEGALL

## PROSIECT

CARDIFF 1919: RIOTS REDRAWN

Yr artist a'r gwneuthurwr ffilm Kyle Legall sy'n sôn am ei brofiad o ymglyfarwyddo â'r Egwyddorion Ansawdd wrth weithio ar ei brosiect Cardiff 1919: Riots Redrawn.

## AM Y PROSIECT

Daeth y prosiect Cardiff 1919 Riots Redrawn i fodolaeth oherwydd fy amser fel Cyfarwyddwr Newydd gyda National Theatre Wales. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roeddwn yn rhan o'u prosiect Storm 2 oedd yn rhoi sylw i hanes terfysgoedd 1919 yng Nghaerdydd. Fe wnaeth yr hanes yma gymaint o argraff arnaf fel fy mod am ei archwilio ymhellach yn fy mhrosiect a chreu nofel graffig ddigidol ar sail y digwyddiadau.

## SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Trwy brosiect Cardiff 1919 Riots Redrawn, fe es ati i ddysgu am y naw Egwyddor Ansawdd a meddwl sut y gallwn eu defnyddio a'u gwneud yn berthnasol i'm gwaith.

Ymgysylltu â'r gymuned oedd craidd y prosiect, trwy'r ymchwil a'r broses ysgrifennu ar gyfer y perfformiad gan National Theatre Wales. Roeddem am roi sylw i'w lleisiau ac atgofion y gymuned am ddigwyddiadau 1919. Fe wnaethom hefyd ail greu digwyddiadau o 1919, ar sail hen adroddiadau papur newydd a gasglwyd gan Mike Pearson. Fe ddefnyddiais y rhain yn ogystal â ffotograffau o'r archif i adeiladu fy mhrosiect.

Fe wnes i hefyd gyd-weithio gyda Chris Jenkins, a wnaeth greu cefndir o sain a cherddoriaeth ar gyfer y golygfeydd a gosod yr awyrgylch, ac Ali Goolyad, yr actor oedd wedi perfformio'r sgript ar gyfer perfformiad National Theatre Wales.

Fy nod oedd i'r prosiect fod yn berthnasol ac yn un sy'n ysbrydoli. Roeddwn am greu cyswllt rhwng y gorffennol a'r presennol a chreu rhywbeth a fyddai'n para i'r dyfodol. Roedd hon yn broses fyfyrion iawn – yn edrych ar sut y byddai pobl yn cael cysylltiad â'r gorffennol mewn ffordd fodern, ar eich ffôn, a meithrin diddordeb pobl iau mewn hanes.

Roedd y gweithgaredd yn un ymarferol, ac mae hynny wastad wedi bod yn wir yn fy ngwaith. Aeth yn anodd recordio'r actorion yn ystod y cyfyngiadau Covid, felly roedd yn rhaid ei wneud o gartref. Cafwyd cyfarfodydd ar Zoom, ond roedd yn anodd cyfarwyddo'r darn pan nad oedd y bobol i gyd yn yr un ystafell – nid dyna yw fy ffordd arferol o weithio. Fe wnaethom ddysgu llawer – yn gweithio gyda phobl gyda sgiliau TG gwahanol a gwneud llawer o waith technegol i gyfuno recordiadau pawb.

## **PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?**

Roedd gweithio gyda NTW yn waith cydweithredol, ac fe lwyddais i gynnwys fy ffrindiau yn y gymuned. Roedd gennyf gefnogaeth fy rheolwr prosiect a llawer o gymorth, sef y ffordd orau o weithio ac fe allem ni i gyd rannu cyfrifoldeb am bopeth.

Roeddwn yn gweithio hefyd gyda'r artistiaid – Mike Pearson (testun ac ymchwil), Ali Goolyad (un o'r actorion), a Chris Jenkins (cerddor o'r gymuned).

## BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Dysgais pa mor ddefnyddiol yw gallu addasu a pheidio â bod â syniad pendant o'r hyn oedd yn mynd i ddigwydd wrth ddechrau. Roeddwn yn gallu gadael i'm syniadau ddatblygu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Rwyf hefyd wedi datblygu fy ymarfer fy hun trwy'r prosiect yn ogystal â'm sgiliau. Mae'r nofel graffig ddigidol derfynol ar wefan a weinyddir gan National Theatre Wales, a gall pobl symud trwy'r storïau yn ddigidol. Mae'r rhain wedi eu cysylltu â mapiau, felly gall fod yn daith gerdded, ac yn weithgaredd. Roedd hyn yn rhywbeth newydd a heriol i mi fel artist, a bydd fy mhrosiect nesaf yn debyg, gan ddefnyddio hen luniau ac archifau.

Roedd defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd yn ffordd wych o arfer gyda'r iaith o weithio ym maes y celfyddydau a gallu siarad am fy ngwaith a'm hymarfer. Mae strwythur yr Egwyddorion Ansawdd yn ddefnyddiol i hyn ac mae'n eich helpu i drefnu prosiectau mewn ffyrdd na fydddech wedi meddwl gwneud o'r blaen.

Roeddwn i'n gweld bod cael trafodaeth am holl elfennau'r egwyddorion, yn eich helpu i wneud yn siŵr eich bod wedi trafod popeth. Maent hefyd yn eich helpu i deimlo bod cysylltiad rhyngoch chi â phobl eraill fel artist. Mae cael y strwythur hwn yn eich helpu i weithio gyda phobl eraill, hyd yn oed os yw eich ffordd o weithio yn wahanol. Gallwch ddilyn yr un egwyddorion ac mae sôn amdanynt yn eich helpu i gyfleu eich syniadau.

## AWGRYMIADAU DA

- Ceisiwch fod yn agored ac yn barod i addasu'r cynllun os bydd amgylchiadau'n newid. Mae'n helpu i gael lle i adael i'ch syniadau ddatblygu.
- Defnyddiwch yr Egwyddorion Ansawdd mewn trafodaethau gyda phobl sy'n ymwneud â'r prosiect – gall hyn helpu i sicrhau eich bod wedi trafod popeth ac y gallwch chi i gyd gytuno ar ffyrdd o weithio neu'r syniadau tu ôl i wahanol rannau o'r prosiect.

## RHAGOR O WYBODAETH

[cardiff1919.wales](http://cardiff1919.wales)

[www.nationaltheatrewales.org](http://www.nationaltheatrewales.org)

Instagram: [higher\\_graphics](https://www.instagram.com/higher_graphics)

Twitter: [kylelegall](https://twitter.com/kylelegall)

